**<u>Cyngor Cymuned Buan</u>**

Cynhelir cyfarfod o Gyngor Cymuned Buan

**Nos Iau, 9 Chwefror, 2023 am 7.30 p.m.**

**<u>Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy</u>**

**<u>Rhaglen</u>**

1. Ymddiheuriadau
2. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mis Ionawr 2023.
3. Materion yn codi –

Materion priffyrdd – wedi cael ebost yn ymateb i gwynion mis Ionawr. (Amgaeedig)

4. Materion Cynllunio – Dim.
5. Unrhyw un yn datgan diddordeb.
6. Ymatebion i ohebiaeth
7. Materion Ariannol

- Cais am gyfraniad ariannol gan Theatr Bara Caws

8. Unrhyw fater arall

Amg.

**YMATEB I GWYNION MIS IONAWR 2023**

Annwyl Glerc,

Ymhellach i'ch ebost dyddiedig 13 Ionawr, nodaf ein sylwadau isod:

- Arwyddion ar Lôn Boduan

  Mae'r mater yma wedi cael ei anfon ymlaen i Adran Trafnidiaeth gyda chais iddynt ymateb i chi'n uniongyrchol.

- Dŵr yn Rhedeg o Home Farm i'r Ffordd

  Gwaith glanhau'r draeniau wedi ei basio i'r gweithlu.

- Twll ger Croesffordd Glanrhyd

  Mae'r twll bellach wedi cael sylw.

- Pant Glas, Rhydyclafdy

  Mae'r draen yma wedi'i hychwanegu i restr y peiriant glanhau draeniau a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael.

- Ffordd o Rhydyclafdy i Efailnewydd

  Mae'r ffordd yma wedi'i hychwanegu i restr glanhau ffyrdd a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael.

- Meithrinfa Blagur

  Mae'r mater yma wedi cael ei anfon ymlaen i'r Adran Trafnidiaeth gyda chais iddynt ymateb i chi'n uniongyrchol.

- Lôn Tyddyn Cae (Lôn Felin)

  Bwriedir ymgymryd â gwaith uwchraddio'r system gwaredu dŵr wyneb ar ymylon y ffordd yn fuan. Yn y tymor hir byddwn yn trefnu gwaith pellach megis ail-wynebu a chlytio rhannau penodol o'r ffordd.

Yn gywir,

GARETH ROBERTS

PEIRIANNYDD ARDAL DWYFOR